# Bwletin Lifrai Cymru o Gwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru

**RHIF 32** **Hydref 2024**

## LLYTHYR Y MEISTR



Annwyl Liferwyr
Gobeithio eich bod chi i gyd wedi mwynhau'r haf ac yn barod i groesawu'r hydref! Mae'r hydref yn cario neges symbolaidd o ryddhau pethau, wedi'i chysylltu â'r coed yn colli eu dail ac yn cofleidio newid.
Nid yw'r Lifrai wedi bod yn brin o newidiadau! Mae cwpl o newidiadau mawr wedi digwydd gydag ymddeoliad y Trysorydd cyn i mi ddod i'r swydd ym mis Mawrth eleni ac ymddeoliad ein Clerc Christopher Dale ar ôl cyrraedd 70 oed ym mis Medi. Er ei bod yn her recriwtio nid un ond dau aelod uwch y Lifrai, rydym wedi llwyddo i recriwtio dau ymgeisydd rhagorol

Cymerodd **Colin Morris** BA (Anrh) CPA FCA swydd fel Trysorydd ym mis Awst ac mae wedi cael cymorth caredig yn ei gyfnod sefydlu gan y Liferwr **Philip Kitchen**, y Trysorydd sy'n gadael. Dechreuodd ein Clerc newydd **David Sneddon** MA ( Anrh) CA ar 1 Tachwedd a chaiff ei benodi'n Glerc Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru yn y Cyfarfod Llys sydd i ddod ar 18 Tachwedd 2024. Yn y cyfamser mae'n cael ei anwytho gyda chymorth ein cyn-glerc, y Liferwr **Christopher D**ale. Yn ystod recriwtio a phenodi'r Trysorydd a'r Clerc newydd, mae ein Clerc Cynorthwyol **Angela Parry** wedi bod yn fy helpu i sicrhau bod y gwasanaethau gweinyddol yn parhau. Ar ran y cwmni, hoffwn ddiolch i **Christopher Dale, Phillip Kitchen** ac **Angela Parry** am eu cefnogaeth barhaus, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr, i mi fel Meistr ac i'r Cwmni. Roeddem yn gallu diolch i Christopher yn bersonol a chyflwyno rhodd iddo yn dilyn cyfarfod diwethaf y Llys. Rydym yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Mae thema fel y Meistr i gynyddu aelodaeth yn parhau ac anogaf fy ymgyrch i ofyn am gefnogaeth aelodau i gyflwyno un aelod newydd hefyd. Rwyf wedi cyflwyno 3 aelod newydd arall a gynhigiwyd gennyf i ac aelod newydd arall a gynhigiwyd gan ein Trysorydd newydd **Colin Morris** ac maent i gyd yn aros am gymeradwyaeth y Llys ar hyn o bryd. Ers fy Ngosodiad, rwyf wedi cyflwyno 10 aelod newydd a diolch yn fawr i'n Cyn Feistr Diweddaraf a'r Uwch Warden , SW a Thrysorydd newydd am gyflwyno aelod newydd yr un hefyd.

Mynychais lawer o ddigwyddiadau ers Bwletin yr Haf. Roeddwn wrth fy modd ac yn anrhydedd i gynrychioli'r Cwmni mewn gwahanol Giniawau a Gwleddoedd Liferi yn Llundain. Yn benodol, roedd yn anrhydedd mawr i mi gael fy ngwahodd fel Siaradwr Gwadd yng Nghinio Llys Cwmni y Watermen a'r Lightermen.. Mae'r holl ddigwyddiadau a fynychwyd isod:

- Eisteddfod Genedlaethol Cymru - Offeren Gymreig yn. Eglwys Sant Dyfrig, Pontypridd
- Etholiad yr Arglwydd Faer yn y Guildhall Llundain T
- Cinio Llys y Cwmni'r Watermen a'r Lightermen, Neuadd y Watermen
- Gwledd Flynyddol Y Glovers yn y Mansion House.
- Cinio Cwmni Anrhydeddus y Constructors, Grocer's Hall, Llundain
- Gwledd y Clothiers yn y Guildhall, Caerwrangon
- Gwledd Flynyddol Cwmni Anrhydeddus y Peirianwyr y Mansion House

- Cinio Cwmni Anrhydeddus y Cyflafareddwyr, Grocers Hall
- Cwmni Anrhydeddus Y Gwneuthurwyr Dodrefn, Neuadd Friars
- Gŵyl y Cofio, Y Lleng Brydeinig Frenhinol yn yr ICC Casnewydd
- Dawns Fawreddog Diweddglo’r Arglwydd Faer, Y Guildhall, Llundain
- Y Seremoni Ddistaw, Y Guildhall, Llundain fe; gwestai'R Arglwyddes Faeres Elizabeth Mainelli
- Sioe'r Arglwydd Faer, Llundain
- Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru

Fel y gwelir, mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn i mi a'r cyfan yn bleserus iawn ac yn ffordd wych o rannu cymrodoriaeth! Roedd hefyd yn helpu thema fy Meistr i godi proffil ac ymwybyddiaeth o Gwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru . Yn ystod hyn i gyd, llwyddais hefyd i gynnwys dau o fy nigwyddiadau Calendr - penwythnos y Meistr yng Ngogledd. Cymru - Llandudno a Thaith Gwaith Copr Distyllfa Penderyn Abertawe a Chinio. Mynychwyd y ddau yn dda iawn ac roeddynt yn ddigwyddiadau llwyddiannus iawn.

Mae manylion llawn apwyntiadau a digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn ymddangos yn ddiweddarach yn y Bwletin.

Cyfeiriwch at yr adran Cadwch y Dyddiad yn y Bwletin hwn ar gyfer digwyddiadau sydd i ddod ac edrychaf ymlaen at eich gweld chi i gyd yn y Gwasanaeth Nadolig a'r Carolau ar Ragfyr 3ydd, 2024 - Gwahoddwch eich teulu a'ch gwesteion i ddod gyda chi.





Cofion

Agnes

**Agnes Xavier-Phillips JP DL**
**Master 2024-2025**
**Worshipful Company of Wales**
**E: master@livery.cymru**

## Y PWYLLGOR GWOBRAU



Fel Cadeirydd y **Pwyllgor Gwobrau**, mae'r Uwch Warden **Henry Gilbert** eisiau estyn allan a gwahodd Liferwyr i ystyried ymuno â'r Pwyllgor Gwobrau.

Mae'r Pwyllgor Gwobrau yn penderfynu sut y byddwn yn cyflawni nodau'r Cwmni Liferi o ddatblygu talent ifanc o Gymru yn y celfyddydau, gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae amrywiaeth o ffyrdd trwy wobrau ariannol, cydnabyddiaeth a dathlu. Cyfanswm y gyllideb flynyddol yw £40,000 a thair gwobr wedi'u gwneud yn ddiweddar, sef **Gwobr Datblygiad Aur Bryan Marsh** am £5,000**, Gwobr Teithio** am £1,000 a'r **Wobr Llythrennedd Ariannol** am £500. Bydd manylion llawn yn cael eu rhoi yn rhifyn nesaf y Bwletin hwn.

## I'R ENTRYCHION!




Ym mis Hydref cynhaliwyd y gwobrau blynyddol i brentisiaid Babcock (is gontractwyr RAF y Fali) yn RAF y Fali. Roedd pedwar dyn ifanc wedi cwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus ac wedi derbyn amrywiaeth o wobrau, ymhlith canmoliaeth uchel a llongyfarchiadau. Ymhlith y gwobrau hynny, cafodd pob un ei gydnabod gan ein Cwmni Liferi a chyflwynwyd tystysgrif i goffáu'r achlysur gyda swm ariannol bychan, gan y **Liferwr, Noel Hulmston**, o Ogledd Cymru.
O'r Dde i'r Chwith – Liferwr **Noel Hulmston**, **Ethan Griffiths**, **Adam Valleley, Brendan Sweetman, Liam Capper, Bethan McCrohan** (Goruchwyliwr Prentisiaid Babcocks).

## Y PWYLLGOR DIGWYDDIADAU ELUSENNOL



Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Digwyddiadau Elusennol **Y Tad Sebastian Jones** ar y Croce a The a drefnwyd gan y Pwyllgor Digwyddiadau Elusennol, yn ddiweddar yng Nghlwb Croce Llandaf ar Fedi 1af, 2024 ac roedd yn amser hwyliog, ac wedi'i fwynhau gan bawb. Croesawodd Cadeirydd y clwb croquet, Geoff Barton-Greenwood ni i gyd a rhoddodd hanes byr a chefndir croce i ni. Yna cawsom wahoddiad mewn grwpiau i chwarae croce gydag aelodau'r clwb. Ymunodd y rhan fwyaf o bobl, gyda phawb yn mwynhau yn fawr, gyda llawer o Liferwyr yn cysidro ymgymryd â'r hobi newydd yma. **Jenny Barton-Greenwood** oedd yn arwain y digwyddiad te hufen, gan gyfarch pawb gyda gwydriad oer o Pimms a Chacen Gri. Darparodd y Warden Iau, Jane Croad a'i theulu, de prynhawn godidog gyda gwydraid o siampên.



Mwy o wybodaeth
[https://liverycompanywales.cymru/downloads/270924-collage-and-article-of-croquet-and-afternoon-event.pdf](https://liverycompanywales.cymru/downloads/270924-collage-and-article-of-croquet-and-afternoon-event.pdf)

## Y PWYLLGOR CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS



Mae'r Meistr, **Agnes Xavier-Phillips** a Chadeirydd y Pwyllgor Cysylltiadau Cyhoeddus, yn hapus iawn gydag ystadegau'r cyfryngau cymdeithasol (sy'n cael eu postio yn rhan Warchodedig Cyfrinair Aelodau o'r Wefan), sydd wedi parhau i gynyddu, a dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi codi o tua 40 I 667 o ddilynwyr. Mae'r ffigwr yma'n cymharu'n ffafriol a rhai o Gwmnïau Lifrai Llundain.

Pwysleisiodd y Meistr y dylem annog pob enillydd gwobr i roi cyhoeddusrwydd i'w gwobrau'r Cwmni Lifrai a'r manteision y maent wedi'u cael ganddo ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu hunain i godi ymwybyddiaeth o'r Cwmni.

Anogir pob Liferwr i "hoffi a rhannu" postiadau y Cwmni. Mae'r Tîm Cymraeg yn parhau i gynorthwyo gyda'r cyfieithiad Cymraeg o Fwletin y Cwmni.

.

## TAITH DISTYLLFA GWAITH COPR PENDERYN ABERTAWE




Diolch yn ddiffuant i'r Liferwr **Stephen Davies**, Prif Swyddog Penderyn a'i wraig **Laura Davies**, am gynorthwyo i drefnu a gwneud yr ymweliad diddorol a llawn gwybodaeth yma yn bosibl.


Daeth saith ar hugain o Liferwyr a gwesteion i Ddistyllfa Gwaith Copr Penderyn yn Abertawe ar ddydd Llun Hydref 7fed ar gyfer Taith Tywysedig ac yna cinio ysgafn.
Mwy o Wybodaeth
https://liverycompanywales.cymru/downloads/swansea-penderyn-tour.pdf

## CROESO I'N CLERC NEWYDD - DAVID SNEDDON MA (Hons) CA



Cyfrifydd Siartredig Albanaidd (CA) yw David sydd wedi byw yn Sir Fynwy ers 1997. Mae'n Brif Swyddog Ariannol profiadol iawn sydd wedi dal sawl swydd uwch drwy gydol ei yrfa. Ar ôl graddio gyda gradd meistr o Brifysgol Aberdeen, dechreuodd ei yrfa gyda KPMG yng Nghaeredin cyn symud i'r diwydiant alwminiwm, gan weithio i Alcan / Novelis am dros 21 mlynedd, gan ddal swyddi ariannol a gweithredol gan gynnwys CFO Novelis Europe yn Zurich.
Mae David wedi dal nifer o rolau CFO yn fwy diweddar gyda'r driller alltraeth a restrwyd yn yr Unol Daleithiau, Seadrill a Leviathan Engineering. Ar ôl gadael y byd corfforaethol mawr yn 2018, mae wedi bod yn gweithio gyda phortffolio o fusnesau BBaCh a reolir gan berchnogion a busnesau preifat a gefnogir gan ecwiti preifat mewn rolau cyllid. Yn briod â Jackie gyda phump o blant a phedwar o wyrion, maent yn mwynhau teithio, bwyta allan, theatr, nofio a cherdded eu dau gi.

## CROESO I'N TRYSORYDD NEWYDD - COLIN MORRIS BA (Hons) FCA CPFA



Yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Caerwysg, mae Colin yn Gymrawd o Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac yn aelod o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Ar ôl cymhwyso gyda chwmni rhagflaenol o PricewaterhouseCoopers, treuliodd ran gynnar ei yrfa yn y sector cyfalaf menter a datblygu, gyda ffocws penodol ar fuddsoddi technoleg.

Wedi hynny bu gan Colin swyddi uwch yn Asiantaeth Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhai Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol De-orllewin Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Swyddfa Cyllid Cymru a Phennaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Cyn ymddeol yn gynnar o Lywodraeth Cymru, roedd yn Bennaeth Cyflogadwyedd gyda chyfrifoldeb am raglenni cymorth cyflogaeth ledled Cymru, yn canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc, y rhai â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth ac unigolion sy'n wynebu diswyddo.

Trwy gydol ei yrfa mae Colin wedi gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat, academaidd a'r trydydd sector. Mae hefyd wedi ymgymryd â rolau Trysorydd gwirfoddol ar gyfer eglwys leol a chlwb rygbi cymunedol. Derbyniwyd Colin i Gwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru a daeth yn Drysorydd ar 23 Awst 2024.

## CORFFORAETH DINAS LLUNDAIN

CITY OF LONDON

## ETHOLWYD YR ARGLWYDD FAER NEWYDD, MEDI 30ain,2024 GUILDHALL, LLUNDAIN



Mynychodd ein Meistr **Agnes Xavier-Phillips** JP DL etholiad yr Heniadur **Alastair King** fel 696ain Arglwydd Faer Dinas Llundain a'i osodiad ar Dachwedd 8fed, 2024.

Yn dilyn yr etholiad, ymunodd ein Meistr sydd hefyd yn Liferwr Cyflafareddwyr â'r Cwmni Cyflafareddwyr am ginio yn y Guildhall.

Mwy o wybodaeth:
https://liverycompanywales.cymru/downloads/301024-lord-mayors-election.pdf

## PARTNERIAETH Â CHWMNÏAU LIFERI LLUNDAIN

### CWMNI ANRHYDEDDUS YR ADDYSGWYR

Fe dderbyniwyd y **Cynorthwyydd Llys Kim Insley** fel Rhyddfreiniwr yng Nghwmni Anrhydeddus yr Addysgwyr. Yn ystod y cinio derbyniwyd dau Ryddfreiniwr arall **Kevin Regan** a **Sahreen Siddiqui.**

.



Y Meistr **Catherine McGuinness** CBE gyda 6 o'r rhai a dderbyniwyd: **Jonathan Eno, Rt Hon Robert Halfon, Timothy Hallett, Sharon Roberts** a **Stephen Smith.**



**Cynorthwyydd Llys Kim Insley** gyda'i gwr **Ian.**

### CWMNI ANRHYDEDDUS Y GWNEUTHURWYR MENIG



Cynhaliwyd Gwledd Flynyddol y Gwneuthurwyr Menig yn amgylchedd unigryw Neuadd Eifftaidd yn Mansion House, carftref godidog Arglwydd Faer Llundain ar ddydd Mawrth Hydref 8fed, 2004. Gwahoddwyd ein **Meistr Agnes Xavier- Phillips** JP DL a'i gwr **Nigel Phillips** i fynychu'r Wledd a chawsant yr anrhydedd o eistedd ar y Bwrdd Uchaf.

Mwy o wybodaeth
https://liverycompanywales.cymru/downloads/081024-the-glovers-annual-banquet.pdf

### CWMNI'R WATERMEN A'R LIGHTERMEN



Anrhydeddwyd ein Meistr Our Master **Agnes Xavier-Phillips** JP DL fel siaradwr gwadd gan Gwmni'r Watermen a'r Lightermen, Afon Tafwys, Llundain yn eu Cyfarfod Llys ar Hydref 2ail, 2004 yn Neuadd Y Watermen, neuadd Sioraidd o'r 19efd ganrif sy'n harddu Dinas Llundain gyda'i cheinder hanesyddol.

Mwy o wybodaeth
https://liverycompanywales.cymru/downloads/281024-news.pdf

## CWMNI ANRHYDEDDUS YR ADEILADWYR



Anrhydeddwyd ein Meistr **Agnes Xavier-Phillips** JP DL a'i chymar **Nigel Phillips** i gynrychioli Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru yng Nghinio Gosod Cwmni Anrhydeddus yr Adeiladwyr. Fe'i cynhaliwyd yn y lleoliad hanesyddol ac unigryw Grocer's Hall gyda'i ganhwyllyr Fenisaidd trawiadol. Anrhydeddwyd y Meistr i fod yn rhan o'r Orymdaith Bwrdd Uchaf.

Mwy o wybodaeth: https://liverycompanywales.cymru/downloads/constructors-dinner.pdf

## CWMNI ANRHYDEDDUS Y PEIRIANWYR



Cynhaliodd Cwmni Anrhydeddus y Peirianwyr eu Gwledd Osod Flynyddol ar Hydref 21ain,2004 yn y Neuadd Eifftaidd y Mansion House, plasty rhestredig Gradd 1 godidog.

Gwahoddwyd Y Meistr **Agnes Xavier-Phillips** JP DL a'i chymar, gan Gyn Feistr y Peirianwyr **Barry Brooks** a'i wraig **Linda,** ac roedd y Cyn Feistr **Keith Williams** o Gwmni Lifrai Cymru a'i wraig **Janet, yn** eistedd gyda nhw**.**. Roedd y Meistr yn falch o gwrdd â dau Siryf newydd Dinas Llundain..

Am fod y wledd gael ei chynnal ar ddathliad 219 mlynedd ers Brwydr Trafalgar, gwahoddwyd y Prif Swyddog Peirianwyr y Llynges i gynnig llwnc tost traddodiadol Trafalgar y Llynges - "er Cof Anfarwol yr Arglwydd Nelson a phawb a syrthiodd gydag ef"

Mwy o wybodaeth: https://liverycompanywales.cymru/downl oads/211024-the-worshipful-company-of-engineers-installation-banquet.pdf

## CWMNI ANRHYDEDDUS Y CYFLAFAREDDWYR




Roedd ein Meistr **Agnes Xavier- Phillips** JP DL sydd hefyd yn Liferwr yn y Cwmni Cyflafareddwyr a'i chymar **Nigel Phillips** yn falch iawn i fynychu Cinio Gosod Cwmni Anrhydeddus y Cyflafareddwyr. Fe'i cynhaliwyd yn Neuadd y Grocers godidog yn Llundain ddydd Iau Hydref 24ain 2024.

Mynychodd y Meistr y Gwasanaeth Llys ble cafodd y Meistr **Nicola Cohen** a'r Uwch Warden **Matt Molloy** a'r Warden Iau **Peter King** eu gosod.

Mwy o wybodaeth:
https://liverycompanywales.cymru/downloads/241024-the-installalation-dinner.pdf

## FFARWELIO Â'N CLERC



Ar ôl gwasanaethu fel ein Clerc am chwe blynedd, wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 70 oed, penderfynodd Christopher Dale ei bod hi'n bryd iddo "ddirwyn i ben".

I nodi'r achlysur hwn, yn dilyn Cyfarfod y Llys ar Fedi 25ain, cyflwynwyd bowlen rhosyn gwydr wedi'i dorri i Christopher gan y Meistr ar ran y Cwmni.

Diolch yn fawr, Christopher am roi 6 blynedd o wasanaeth ymroddedig i ni.

## LLONGYFARCHIADAU I'R UWCH GYNORTHWYYDD LLYS ROGER HARPER MBE



### Y "GRATEFUL SOCIETY" YM MRYSTE

Ar Dachwedd 14eg bydd Uwch Gynorthwyydd Llys, **Roger Harper** MBE, sy'n byw ym Mhortishead, yn dod yn Llywydd, am flwyddyn, o'r **Grateful Society**, uchel ei bri ym Mryste.

Mae'r Grateful Society yn elusen a sefydlwyd ym 1758 ac sy'n darparu cyllid o tua £110,000 y flwyddyn i elusennau eraill Bryste sy'n darparu cymorth i bobl oedrannus ac unig yn ardal Bryste. Mae gan y Gymdeithas apêl flynyddol ac mae'n gweithio'n agos, ond yn annibynnol, gyda dwy elusen leol debyg arall - Yr Angor a'r Dolffin. Mae rhoddion blynyddol cyfun y tair elusen i gefnogi'r henoed a'r unig ym Mryste oddeutu £330,000.

Mae'r Gymdeithas yn treulio llawer o amser yn ymweld â'r elusennau y maent yn eu cefnogi ac yn gweithio gyda nhw. Mae'r llun yn dangos **Roger** gydag **Arglwydd Faer Bryste'r Cynghorydd Andrew Varney** mewn digwyddiad diweddar a gynhaliwyd gan Elusen Ôl-strôc Bryste sy'n un o'r 30 elusen a gefnogir ar hyn o bryd gan The Grateful.

Llongyfarchiadau mawr i Roger ar y penodiad sydd i ddod.

## CYMDEITHAS MEISTRI'R GORFFENNOL – Y PLATINWMS



Bydd Meistri'r gwahanol gwmnïau Lifrai yn cwrdd yn naturiol mewn digwyddiadau yn ystod eu blwyddyn yn y swydd ac er mwyn cynnal cyswllt a chymdeithasu ffurfir Cymdeithas Meistr Blaenorol (PMA) fel arfer i gynnwys yr holl Feistri o flwyddyn benodol.

Yr Uwch Gynorthwyydd Llys **Roger Harper** MBE oedd cyn-Brif Warden (Meistr) Cwmni Anrhydeddus y Gwneuthurwyr Basgedi 2021-22 ac enwir y cyn Feistri yn Blatinwm ar ôl Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Mae Roger yn aelod gweithgar o'r pwyllgor trefnu.

Mynychodd **Roger** a'i wraig **Olga** ail Ginio Aduniad y Platinwms yn Trinity House, Llundain, lleoliad trawiadol iawn. Anerchodd y cyn-Arglwydd Faer **Vincent Keaveney** CBE a Llywydd y Platinwmau y Grŵp. Mae'r Cyn Feistr **Stuart Castledine** hefyd yn aelod gweithgar o'r grŵp yma.

## GŴYL GOFFA'R LLENG BRENHINOL PRYDEINIG / GWASANAETH COFFA CENEDLAETHOL CYMRU - DYDD SADWRN TACHWEDD 2ail A DYDD SADWRN 3ydd.



**Lest we Forget**





Cynrychiolodd ein Meistr **Agnes Xavier-Phillips** JP DL y Cwmni yn y 44fed Gŵyl Cofio Flynyddol Cymru'r Lleng Brenhinol Prydeinig ICC Cymru. Roedd yn achlysur mwyaf cofiadwy a myfyriol ac yn anrhydeddu'r rhai a oedd wedi rhoi cymaint mewn gwasanaeth.

Ar Ddydd Sul Tachwedd 10fed aeth ein Meistr i Wasanaeth Cofio Cenedlaethol Cymru wrth y Gofeb Ryfel Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd yn wych gweld cymaint o bwysigion a chynrychiolwyr yn y Gwasanaeth. Ar ôl yr achos ffurfiol, aeth pawb i flaen Neuadd y Ddinas i wylio'r Orymdaith.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth gan y **Parchedig Ganon Stewart Lisk** BEM, Caplan er Anrhydedd i Gyngor Caerdydd

.

## HYSBYSIAD MARWOLAETH - Y PARCHEDIG GANON DEREK BELCHER LIFERWR RHIF: 467



Ordeiniwyd Derek yn offeiriaid yn 1978 ac yn ystod ei weinidogaeth gwasanaethodd mewn saw plwyf yng Nghymru o fewn Esgobaeth Llandaf.

Wrth wasanaethu ym Mhlwyf Margam ble roedd yn rhan o wasanaeth arbennig i nodi 850 mlynedd ers sefydlu' Abaty, bu'n cydweithio gyda Chyfeillion Abaty Margam ac fe oruchwyliodd sefydlu'r "Abbots Kitchen" hynod o lwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys, ac yn ei weld yn 'gyfle bugeiliol gwych', yn estyniad o'i weinidogaeth - dull 'anhraddodiadol' tuag at waith ieuenctid.

Roedd hefyd yn Liferwr gweithgar nes i afiechyd ei atal rhag mynychu llawer o'r digwyddiadau a drefnwyd. Fodd bynnag, mynychodd Ginio Pen-blwydd y Siarter Brenhinol yn 10 oed ym mis Mehefin eleni a dywedodd y Fendith.

## HYSBYSIAD MARWOLAETH - Y PARCHEDIG PAUL BIGMORE LIFERWR RHIF 404

Roedd Paul yn Gynorthwyydd Llys, rôl roedd yn gwerthfawrogi'n fawr.. Fe'i hordeiniwyd yn Offeiriad yn 1993 a dechreuodd ei weinidogaeth yn Eglwys Sant Ioan yng nghanol dinas Caerdydd a gwasanaethodd mewn sawl plwyf yng Nghwm Rhondda.



Bydd yn cael ei gofio hefyd am ei gariad mawr at gerddoriaeth. Fe ddyfarnwyd Gwobr Archesgob Cymru am Gerddoriaeth yr Eglwys iddo – gwobr a roddir i bobl o allu cerddorol eithriadol sy'n rhoi o'u hamser i gadw cerddoriaeth wrth galon gwasanaethau mewn eglwysi a chapeli a'i roi iddo am y nifer o lyfrau emynau y mae wedi'u cyhoeddi.

## LLONGYFARCHIADAU I'N LIERWYR







**Llongyfarchiadau i John a Rosemary Solbé ag i Keith a Janet Williams sydd wedi yn ddiweddar ddathlu eu Penblwydd Priodas Ddiemwnt**

**LIFERWYR NEWYDD EI DERBYN**

**DYDD MAWRTH AWST 13eg YN Y CARDIFF & COUNTY CLUB**



O'r chwith i'r dde - ***Mr Michael Davies*** Liferwr *Rhif 545,* ***Mr Martin Trainer*** *Rhif 547,* ***The Most Reverend George Stack*** *Rhif 539 a* ***Mr Colin Morris****, Trysorydd, Rhif 549,* ***Mr David Perkins,*** *Rhif 548, gyda'r* ***Meistr Agnes Xavier-Phillips*** *a'r* ***Uwch Warden Henry Gilbert.***

Mwy o wybodaeth:
https://liverycompanywales.cymru/downloads/130824-admission-of-new-liverymen.pdf

**DYDD MERCHER MEDI 25AIN YN Y CARDIFF & COUNTY CLUB**



O'r chwith i'r dde - ***Janey Howell*** *Uwch Siryf, De Morgannwg Rhif 546, Mr* ***Lewis Bebb*** *Rhif 544,* ***Kathryn Roberts*** *Cadeirydd Eversheds ac Enillydd y Wobr Eithriadol 2024 a Liferwr Anrhydeddus. Yn y llun gyda'r* ***Meistr Agnes Xavier-Phillips*** *a'r Uwch* ***Warden Henry Gilbert***

Mwy o wybodaeth
https://www.liverycompanywales.cymru/downloads/130824-admission-of-new-liverymen.pdf

## CADW'R DYDDIAD

Carolau yn. Eglwys St John's  a Chinio yn y Cardiff & County Clubi i ddilyn.




**Dydd Mawrth, Rhagfyr 3$^{ydd}$ 2024**

Cinio Dathlu Gwobrwyo yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd



**Dydd Mercher, Chwefror 12$^{ed}$ 2025**

## BATHODYNAU LAPEL NEWYDD Y LIFERI



Nawr ar gael i'w brynu am gost o £10.00 ynghyd a chost postio..

Cysylltwch â'r Clerc, DavidSneddon clerk@livery.cymru

## RAFFL NADOLIG

Mae'r Pwyllgor Digwyddiadau Elusennol yn codi arian ar gyfer Ymddiriedolaeth Elusennol y Cwmni..

Byddwch yn hael a phrynwch gymaint o docynnau â phosibl, efallai fel anrhegion Nadolig I deulu a ffrindiau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Chadeirydd y Pwyllgor Digwyddiadau Elusennol, Y Tad Sebastian Jones** at frsebastian@cardifforatory.co.uk

## DONATE JUST GIVING

Mae'r Urdd Lifrai Cymru yn falch o dderbyn rhoddion trwy JUST GIVING ar y wefan - Cliciwch ar y bar botwm "DONATE". Fel arall, gallwch gysylltu â'r Trysorydd ar treasurer@liverycompanywales.cymru

## WELSH LIVERY BULLETIN

Os oes gennych unrhyw erthyglau yr hoffech eu cynnwys mewn rhifynnau o'r Bwletin yn y dyfodol, cysylltwch ag **Agnes Xavier-Phillips** JP DL (Cadeirydd Pwyllgor Cysylltiadau Cyhoeddus) ac **Angela Parry** MBE (Clerc Cynorthwyol), sy'n llunio'r Bwletin yn seiliedig ar gyfraniadau/erthyglau a dderbynnir.

©WLCoW

**PENWYTHNOS GOGLEDD CYMRU'R MEISTR - LLANDUDNO**
**Dydd Gwener 20fed i Ddydd Sul 22ain o Fedi 2024**



Ymunodd tua 30 o Liferwyr a’u gwesteion â’r Meistr am benwythnos ardderchog yn Llandudno ar gyfer Penwythnos Gogledd Cymru. Cyrhaeddodd y mwyafrif bnawn Gwener gan aros yng Ngwesty’r George, sydd ar ymyl y Promenâd.



Roedd hi'n daith gerdded 20 llath i lan y môr ac roedd y 'daith gerdded fer i Fwyty Dylan nos Wener yn golygu ein bod ni'n gweld llawer o'r môr. Roedd y daith gerdded 10 munud a amcangyfrifwyd gan ein Clerc heini iawn yn daith gerdded 20 munud. Fodd bynnag, a’r awyr môr ffres a'r cerdded yn codi ein chwant am bryd o fwyd blasus yn Dylan's.











Yn Dylan's, croesawodd y Meistr ni i gyd a dechreuodd y noson gyda diodydd a llawer o hwyl. Roedd y cinio bwffe anffurfiol yn ardderchog gyda dewis o gyrsiau i ddechrau,  amrywiaeth o brif gyrsiau yn cynnwys cig eidion a chig oen Cymru a dewis o bwdinau gwych at ddant pawb.

Cafodd pawb amser ymlaciol a chael cyfle i ddal i fyny a hefyd cwrdd gwesteion newydd.



Ar ôl gweithio allan na fyddai'r daith yn ôl i'r gwesty yn cymryd 10 munud, aeth rhai mewn tacsis yn ôl i'r gwesty, ond mwynhaodd y Meistr ac eraill gael awyr iach a cherdded yn ôl.

Ar y bore Sadwrn, yn dilyn brecwast ardderchog, cyfarfu Liferwyr a'u gwesteion i gerdded I Ddistyllfa Penderyn (Llandudno wrth gwrs) lle rhoddodd y Liferwr **Stephen Davies,** oedd wedi teithio i fyny o Dde Cymru, groeso cynnes Cymraeg i bawb.








Rhoddodd Stephen daith ardderchog a disgrifiad o'r Distyllfa a'i hanes i ni a oedd yn ddiddorol iawn ac yn fwyaf addysgiadol.















Dilynwyd y daith gan sesiwn blasu (wisgi, jin a chynigion eraill)











Dilynwyd y daith gan ginio bwffe ardderchog yn yr Ystafell Hyfforddi foethus gyda'i fwrdd gwych a oedd yn cynnwys yr holl arwyddion a symbolau a ddefnyddir wrth farchnata'r cynnyrch.

Cawsom i gydag arogli a blasu alcohol pur (wedi ei chwistrellu ar ein dwylo) a chlywyd un Liferwr yn dweud "ffordd dda o ddiheintio'n dwylo cyn bwyta". Roedd arogleuo yn rhan bwysig o'r cyfan, gan fod y cynhwysyddion, fatiau a chasgenni yn llawn o arogleuon hudolus o haidd i arogleuon blodau. Roedd blasu'n well, hyd yn oed i'r rhai nad oeddynt yn hoff iawn o wisgi. Nododd llawer ohonom nad oeddem fel arfer yn yfed gwirodydd mor gynnar yn y dydd ac roeddem yn falch iawn ein bod wedi ael brecwast da






Yn dilyn ymweliad gyda siop y Ddistyllfa roedd ein prynhawn yn rhydd. Aeth Uwch Gymhorthydd Llys **Roger Harper** a'i wraig **Olga** i fyny'r Gogarth a dweud wrthym wedyn am y daith dramffordd, ond penderfynon nhw gerdded i lawr. Mwynhaodd y Cyn Feistr mwyaf diweddar, **John Charles**, daith trên yng Ngogledd Cymru tra bo eraill yn aros yn agosach i'r gwesty, gan fwynhau cerdded ar y Promenâd ac ymweld â siopau lleol



Roedd y cinio ffurfiol gyda derbyniad Siampên am 6;30 yh, yn achlysur gwych gyda bwyd hyfryd ac areithiau diddorol iawn gan y Meistr a'i gwesteion , Mr Kanan Barot, Meistr Cwmni Anrhydeddus yr Ymgynghorwyr Rheoli a'r Capten Grŵp Currie a'r Swyddog Gwarant Justin Wall o'r Awyrlu yn Fali gyda'r Liferwr Noel Hulmston yn eu cyflwyno. Siaradodd pawb gyda gwybodaeth ddiddorol ac fe wnaeth y Meistr hyd yn oed roi cynnig ar ei Chymraeg gan rin croesawu gyda Noswaith Dda a chloi'r noson trwy ddweud Nos Da. Trwy swper cawsom ein diddanu gan y pianydd, a gweithredodd Uwch Gynorthwyydd y Llys Roger Harper fel arweinydd y noson , gan sicrhau bod popeth yn mynd yn esmwyth. Roedd hi'n benwythnos gwych, gyda ni i gyd yn mwynhau'r gymrodoriaeth yn ein gwlad brydferth..





**Diolch i Dduw am Gymru**

**Diolch yn Fawr**

**Cynorthwyydd Llys Kim Insley**
**Meistr Agnes Xavier- Phillips**
**Medi 2024**